Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL: Cyhoeddi Ymgynghoriad Papur Gwyn ynghylch Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**DYDDIAD: 22 Mai 2014**

**GAN: Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Heddiw, 22 Mai 2014, rwy'n cyhoeddi Papur Gwyn yn nodi Cynigion Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Y nod yw creu system decach ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae diwygio'r modd y gall plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dderbyn cefnogaeth un ai mewn ysgol neu sefydliad Addysg Bellach yn un o ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu*.

Mae'r Papur Gwyn –'*Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*'- yn gwahodd sylwadau ar gynigion i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch asesu a chefnogi plant a phobl ifanc mewn ysgolion sydd anghenion addysgol arbennig a phobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro sut y bydd ein cynigion yn creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;

- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

Bydd y diwygiadau'n creu system sy'n lawer mwy teg ac sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Bydd hefyd yn rhoi rhagor o hawliau i blant a'u teuluoedd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys gydol y broses. Rwy'n hyderus y bydd y newidiadau a gynigir i bolisi a deddfwriaeth sylfaenol yn gwella'r gefnogaeth a gynigir i blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fel y gallant gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer diwygio a nodir yn nogfen ymgynghori 2012 sef, "*Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*". Gallwch weld y ddogfen hon ar ein gwefan yn
www.wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=cy

Mae swyddogion wedi cynnwys rhanddeiliaid gydol y broses o baratoi'r Papur Gwyn ac rwyf wedi gofyn iddynt barhau mewn cysylltiad â hwy wrth i'r cynigion gael eu datblygu ymhellach.

Bydd yr ymgynghoriad yn parhau am naw wythnos a bydd yn dod i ben ar 25 Gorffennaf 2014.

.

http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy